

PROSIECT GWIWEROD COCH CANOLBARTH CYMRU – CYNLLUN GWEITHREDU AR GYFER GWIWEROD COCH

Cyflwyniad a Datganiad o Weledigaeth

Y wiwer goch (*Scurius vulgaris*) yw unig wiwer frodorol Prydain. Mae dirywiad enbyd wedi bod o ran niferoedd gwiwerod coch yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae'r dirywiad hwnnw'n gysylltiedig ag ymlediad gwiwerod llwyd, a gyflwynwyd i Brydain o Ogledd America ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Gan fod gwiwerod llwyd yn well o ran gallu manteisio ar yr adnoddau bwyd sydd ar gael mewn coetiroedd llydanddail, ar ôl cyrraedd cynefinoedd o'r fath maent yn tueddu i ddisodli'r gwiwerod coch sydd yno cyn pen rhyw 15 mlynedd; yn ogystal mae gwiwerod llwyd yn cludo brech y gwiwerod sy'n angheuol i wiwerod coch. O ganlyniad mae gwiwerod coch wedi darfod o'r tir yn y rhan fwyaf o dde Prydain.



Yng Nghymru, i raddau helaeth mae gwiwerod coch wedi eu cyfyngu bellach i nifer bychan o blanhigfeydd conwydd mawrion lle maent yn bwydo ar amrywiaeth o hadau, ffrwythau, blagur, egin, rhisgl a chen. Ar y llaw arall nid yw gwiwerod llwyd wedi ymaddasu cystal o ran bwydo mewn coedwigoedd conwydd, sy'n golygu bod gwiwerod coch yn dal i allu byw mewn cynefinoedd o'r fath. Fodd bynnag, hwnt ac yma mewn coedwigoedd conwydd ceir llecynnau lle tyf coed llydanddail sydd â hadau mawr ac mae'r llecynnau hyn yn gallu cynnal gwiwerod llwyd, gan olygu eu bod yn fygythiad parhaus i unrhyw wiwerod coch sydd yn y cyffiniau.

Arferai gwiwerod coch fod yn llawer mwy cyffredin yn Sir Gaerfyrddin, ond prin ac ysbeidiol y'u gwelir bellach a hynny mewn ambell ardal leol iawn yng nghoedwigoedd conwydd canolbarth Cymru. Ers 2000 daw'r rhan fwyaf o'r cofnodion o gyffiniau Bryn Arau Duon (i'r gogledd o Bumsaint) ac o nifer o flociau o gonwydd (yn rhai a reolir yn preifat ac yn rhai a reolir yn gyhoeddus) yng ngogledd Sir Gaerfyrddin, yng Ngheredigion ac ym Mhowys. Dengys gwaith ymchwil yn ddiweddar fod niferoedd y gwiwerod coch yn fach ond bod iddynt ddosbarthiad eang ledled y coedwigoedd. Yn ogystal dengys y gwaith fod gwiwerod llwyd yn bresennol hefyd. Y boblogaeth yng nghanolbarth Cymru yw'r un fwyaf amrywiol yn enetig yng Nghymru.

Er mwyn gallu gwarchod gwiwerod coch mewn modd effeithiol, mae'n rhaid i reolwyr coedwigoedd preifat a choedwigoedd cyhoeddus weithio law yn llaw. Mae Prosiect Gwiwerod Coch Canolbarth Cymru yn gweithio'n ddiflino i grynhoi cymaint o wybodaeth â phosibl am sefyllfa gwiwerod coch yng nghanolbarth Cymru, ac i hoelio sylw ar weithredu oddi mewn i'r holl gyrrff perthnasol er mwyn sicrhau bod y rhywogaeth arbennig hon yn cael ei gwarchod, ac yn ennill tir, yng nghanolbarth Cymru.

Byddai unrhyw weledigaeth ar gyfer gwiwerod coch yn cynnwys blaenoriaethu rheolaeth yn y dyfodol ynghyd â phennu nod o ran bod yr holl gynlluniau dylunio ar gyfer y coedwigoedd yn cadw/gwella cynefinoedd addas yng nghoedwigoedd canolbarth Cymru. Gallai datblygu strategaeth gadwraeth ar raddfa tirwedd ar gyfer canolbarth Cymru gynnwys mesurau i warchod gwiwerod coch ac i reoli gwiwerod llwyd yn y coedwigoedd ac yn y parthau gwahanu.

Datganiad o Weledigaeth

Cynllun pum mlynedd yw hwn i gyfnerthu'r boblogaeth bresennol o wiwerod coch a hynny drwy fanteisio i'r eithaf ar y cynefinoedd posibl sydd ar gael i wiwerod coch yng nghoedwigoedd Canolbarth Cymru, a thrwy warchod y boblogaeth rhag gwiwerod llwyd. Bydd unrhyw gamau gweithredu yn ceisio cyflawni un neu ragor o'r amcanion canlynol:

Amcanion y Cynllun Gweithredu

- RS1** Sicrhau y rheolir gweithgareddau fel nad ydynt yn cyfrannu at leihau niferoedd a dosbarthiad gwiwerod coch na'u cynefinoedd yng nghanolbarth Cymru, nac yn achosi hynny
- RS2** Crynhoi data ynghylch dosbarthiad a sefyllfa gwiwerod coch yng nghanolbarth Cymru
- RS3** Cynyddu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y boblogaeth gwiwerod coch yng nghanolbarth Cymru, a darparu cyngor ynghylch rheoli cynefinoedd
- RS4** Sicrhau bod unrhyw faterion ynghylch gwarchod gwiwerod coch (gan gynnwys rheoli gwiwerod llwyd) yn cael eu cynnwys yn yr holl gynlluniau a pholisïau perthnasol sy'n effeithio ar goedwigoedd canolbarth Cymru

Crynodeb o'r camau gweithredu a gyflawnwyd gan Bartneriaid y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (i gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â'r swyddog bioamrywiaeth – Bioamrywiaeth@sirgar.gov.uk) neu ewch i wefan y System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth genedlaethol - <http://ukbars.defra.gov.uk>:

Y camau gweithredu hyd yn hyn:

- Cynhaliwyd prosiectau ymchwil yn 2005, 06, 07 a 08 i gael gwybodaeth ynghylch presenoldeb gwiwerod coch yng nghoedwigoedd canolbarth Cymru - MWRSP RS2
- Cynhaliwyd dadansoddiad DNA o sbesimenau canolbarth Cymru RS2
- Cynhaliwyd anerchiadau a theithiau cerdded – WTSWW/CCC/Selectfor/MISE RS3
- Cyhoeddwyd erthyglau - WTSWW/CCC/Selectfor/MISE RS3
- Lluniwyd gwefan – CCC/WWBIC RS3
- Cynhaliwyd dadansoddiad o gyflwr y prif gynefinoedd yng Nghoedwig Tywi RS1
- Cafwyd cyllid gan Amgylchedd Cymru i gynnal prosiect prawf oddi mewn i barth gwahanu'r Safle Dan Sylw gyda golwg ar ystyried y posibiladau o ran rheoli gwiwerod llwyd ar raddfa eang – WTSWW RS2
- Ffurfiwyd a hyfforddwyd grŵp gwirfoddolwyr – MISE RS3
- Cynhaliwyd diwrnodau arolygu gan wirfoddolwyr yng nghoedwigoedd canolbarth Cymru - WTSWW/MISE/MWRSP RS2
- Gwnaed gwaith gydag ysgolion o ran plannu coed / gwneud bwydwyr – MISE RS3
- Mynychid cyfarfodydd Partneriaeth Gwiwerod Cymru - MWRSP RS4
- Rhoddwyd sylwadau ar Gynlluniau Dylunio Coedwigoedd – WTSWW RS4

2014

- Mae Amgylchedd Cymru a chronfa bagiau plastig y Co-operative wedi helpu Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru i ddarparu swydd Swyddog Gwiwerod Coch (3 diwrnod yr wythnos) er mwyn ymgysylltu â'r cymunedau lleol - Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru (YNDGC)
- Cynhaliwyd prosiect trapio yng Nghwm Berwyn – daliwyd 3 gwiwer goch – Mamaliaid mewn Amgylchedd Cynaliadwy (MMAC)
- Cynhaliwyd arolwg tiwbiau blew yng nghoetir Nant-y-Bai, Rhandir-mwyn – MMAC

- Cychwynnwyd cynllun rheoli ar gyfer Coedwig Tywi – Prosiect Gwiwerod Coch Canolbarth Cymru
- Cynhaliwyd pedwar cyfarfod cyhoeddus yn ardal y Prosiect – Pumsaint, Rhandir-mwyn, Tregaron a Llanwrtyd
- Lansiwyd cynllun benthycia trapiau a gyllidir gan Amgylchedd Cymru er mwyn helpu i reoli gwiwerod llwyd yn yr ardal graidd - YNDGC
- Crëwyd prosiect gwefan - YNDGC
- Cynhaliwyd prosiect dilyn gwiwerod coch drwy ddefnyddio technoleg signal radio yng nghoedwig Bryn Arau Duon – MMAC

2015

- Cynhaliwyd cyfarfodydd rhwng Swyddog Gwiwerod Coch a staff CNC i drafod rheoli'r llwydion ac arolygon cyn cynnal gweithrediadau RS1
- Aelodau'r Bartneriaeth yn drafftio nodyn cynghori ar weithrediadau coedwigaeth a gwiwerod coch yn safle ffocws Gwiwerod Coch Canolbarth Cymru. RS1
- Trapiau camera wedi'u gosod mewn 2 leoliad yn safle ffocws Gwiwerod Coch Canolbarth Cymru; un ger Llanddewi Brefi, a'r llall ger Llanfair Clydogau a chânt eu monitro gan wirfoddolwyr. RS2
- Sefydlwyd gwefan sydd â chyfleuster adrodd. Caiff achosion o weld gwiwerod coch eu casglu gan Swyddog Gwiwerod Coch. RS2
- Taflenni Partneriaeth Gwiwerod Coch Canolbarth Cymru wedi'u creu RS3
- Sgyrsiau a chyflwyniadau i 12 grŵp gwahanol yn ardal y prosiect neu'n gyfagos, gyda chyfanswm o 327 o bobl yn bresennol. RS3
- Swyddog Gwiwerod Coch a gwirfoddolwyr wedi cynnal stondinau gwybodaeth mewn 6 o ddigwyddiad a sioeau gwahanol yn ardal y prosiect. RS3
- Cynhaliodd y prosiect ddau ddigwyddiad galw heibio, i godi ymwybyddiaeth o wiwerod coch yn safle ffocws Gwiwerod Coch Canolbarth Cymru, a chynyddu nifer aelodaeth y Cynllun Benthyc Trap (CBT) RS3
- Mae'r CBT wedi tyfu ac mae bellach ganddo 8 Cydlynnydd Lleol a mwy na 70 o aelodau. RS3
- Dau gwrs hyfforddiant ar reoli gwiwerod llwyd i aelodau'r CBT RS3
- Cynhaliwyd cyfarfod gydag aelodau Partneriaeth Gwiwerod Coch Canolbarth Cymru, cwmnïau coedwigaeth a Chyfoeth Naturiol Cymru i gyflwyno canfyddiadau ac argymhellion adroddiad Cynefin 2012. RS3
- Ymweliad safle gan Swyddog Glastir â choetir yn safle ffocws Gwiwerod Coch Canolbarth Cymru; canolbwyntiodd yr ymweliad ar reoli coetiroedd yn briodol ar gyfer cadwraeth gwiwerod coch. RS3
- Derbyniwyd cynlluniau gan CNC a Pryor and Rickett gyda chynigion ar gyfer rheoli eu hystadau gyda chamau wedi'u cynnwys mewn perthynas â gwiwerod coch. RS3

Camau arfaethedig i'r dyfodol

- Cynllun rheoli i gychwyn ar gyfer ardal goedwig Tywi - PGCCC
- Rheolwyr coedwigoedd i lunio cynigion i reoli eu hystadau gyda chamau wedi'u cynnwys mewn perthynas â gwiwerod coch. RS3

Y camau arfaethedig yn y dyfodol

- Diweddarau'r wefan
- Cynllun Rheoli ar gyfer Coedwig Tywi

Deddfwriaeth

Mae gwneud y canlynol yn drosedd o dan Adran 9 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981:

- Lladd, anafu neu gymryd (dal) gwiwer goch yn fwriadol;
- Meddu ar wiwer goch neu ei rheoli, boed yn fyw neu'n farw, neu unrhyw ran o wiwer goch neu unrhyw beth sy'n deillio o wiwer goch;
- Difrodi neu ddiestro unrhyw adeiladwaith neu le y mae gwiwer goch yn ei ddefnyddio'n gysgodfa neu'n warchodfa, neu rwystro mynediad i'r cyfryw, boed yn fwriadol neu'n ddi-hid;
- Tarfu, yn fwriadol neu'n ddi-hid, ar wiwer goch sydd mewn adeiladwaith neu le y mae'n ei ddefnyddio'n gysgodfa neu'n warchodfa;
- Gwerthu, cynnig gwerthu, rhoi ar werth neu gludo er mwyn ei gwerthu unrhyw wiwer goch, boed yn fyw neu'n farw, neu unrhyw ran o wiwer goch neu unrhyw beth sy'n deillio o wiwer goch;


Dolenni defnyddiol

- Yr Ymddiriedolaethau Natur – [Gwiwerod Coch](#)
- [Prosiect Gwiwerod Coch Canolbarth Cymru](#)
- [Red Squirrel Survival Trust](#)

COFNODION GWIWEROD COCH
O 1990 TAN Y PRESENNOL

Coch = 2000au

Glas = 1990au



Mae Prosiect Gwiwerod Coch Canolbarth Cymru ar hyn o bryd yn cynnwys:

